Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau

Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd June Marshall, Ward Menai, Bangor. 2012-2013 yn unol â diffiniad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

*Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyhoedd, mewn geiriau eraill, cyflwyno gwybodaeth ffeithiol i unigolion y ward.*

1. Cyfarfodydd o'r Cyngor a Fynychwyd -

   **Y Cyngor Llawn:** Wedi mynychu chwe cyfarfod. Methais un cyfarfod am fy mod yn mynychu angladd aelod teulu agos.

   **Cynllunio:** Wedi mynychu 12 cyfarfod. Wedi methu dau gyfarfod.

   **Pwyllgor Craffu Corfforaethol:** Wedi mynychu pedwar cyfarfod. Collais un cyfarfod am fy mod yn mynychu angladd aelod teulu agos.

   **Grwpiau Gweithgor Craffu:**
   (i) Ymchwiliad Craffu (Systemau Meddwl). Wedi mynychu naw cyfarfod, gan gynnwys cyfweld â Swyddogion o'r Cyngor a Phennaeth Ysgol Gynradd.
   (ii) Agenda Wledig. Wedi mynychu un cyfarfod hyd yn hyn: Mae'r prosiect yn parhau.

   **Grŵp Prosiect Bangor:**
   Dau gyfarfod

   **Gweithgorau:**
   Mynychais ddau gyfarfod o'r gweithgor oedd yn trafod Pwyllgorau Ardal.
   Mynychais un gweithgor oedd yn trafod datblygu hyfforddiant.

2. Cyrsiau hyfforddi a fynychwyd

   Mynychais chwe sesiwn hyfforddi: Rheoli Newid, Technegau Gofyn Cwestiwn, Cynllunio, I pad, Perfformiad Addysgol ac Amddiffyn Plant.

3. Seminarau

   Mynychais ddau seminar rhanbarthol i aelodau etholedig Gogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno.
   Dau seminar o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
   Un seminar ar strategaeth ariannol Gwynedd

4. Gweithdai

Mynychais 2 weithdy ar Gynllun Strategol Gwynedd

5. Cyrff allanol yr wyf yn aelod ohonynt ac yn cynrychioli Cyngor Gwynedd

   **Llywodraethwyr Ysgol Cae Top:** Wedi mynychu 4 cyfarfod.
   **Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor:** Wedi mynychu 2 cyfarfod.

6. Cyfarfodydd eraill y mynychais fel Aelod o Gyngor Gwynedd.

   Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru, Tai Gofal Ychwanegol, Llanfairfechan, Tai Gofal Ychwanegol, Bangor, Agoriad Siop Gwynedd, Caernarfon, Agor Llinell Amser, Bangor.

7. Cyfarfodydd a drefnwyd gyda swyddogion Gwynedd i drafod problemau'r ward

   Mynychais 11 cyfarfod gyda swyddogion unigol i drafod materion a phroblemau'r ward. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r rhain ar safle ym Mangor Uchaf ac fe'u cynhaliwyd yn aml o ganlyniad i gwynion a wnaed gan drigolion. Roedd y materion a dderbyniodd sylw yn cynnwys: Problemau sbwriel, ceudyllau, palmentydd anwastad, draeniau, diffyg biniau, tai amlddeiliadaeth, llwybrau beicio amlddefnydd ac adeiladu wal ar Ffordd Caergybi, rhandiroedd, symud safle bws, gwella arwyddion i bobl hŷn, gwella diogelwch ffyrdd.

8. Cyfarfodydd safle gyda swyddogion eraill

   Bu i mi gyfarfod â swyddogion o'r Brifysgol ynghylch ailblannu'r mynediad i Neuadd Reichel a chyfarfod â PCSO Ian Edwards a chyd-gerdded hyd strydoedd Bangor Uchaf i adnabod unrhyw broblemau.

9. Gweithgareddau Eraill

   Rwy'n gweithredu fel Ysgrifennydd Cymdeithas Bangor Uchaf, grŵp trigolion y bu i mi helpu i'w sefydlu dros ugain mlynedd yn ôl. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod pob mis ac mae hyn yn gyfle i gynnal deialog defnyddiol iawn sy'n gweithio'r ddwy ffordd. Fel Cynghorydd o Wynedd, gallaf adrodd ar faterion cyffredinol sy'n effeithio ar yr ardal megis ceisiadau cynllunio neu drwyddedu ac mae'n fodd i mi roi gwybod i'r aelodau am yr hyn yr ydwyf wedi bod yn ei wneud. Gall aelodau adrodd ar unrhyw broblemau y maent wedi sylwi arnynt er mwyn i mi eu cyfeirio at y swyddogion perthnasol. Rydym hefyd yn cynnal boreau coffi o dro i dro, gan wahodd siaradwyr megis y swyddogion heddlu lleol, sy'n cynnig cyfle arall i drigolion roi gwybod i mi am unrhyw bryderon neu broblemau.